

ADRODDIAD Y CADEIRYDD 2020 - 2021

Adolygiad o waith Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

CHAIRMAN'S REPORT 2020 - 2021

A review of the work of the Snowdonia National Park Authority



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

eryri.llyw.cymru



Adroddiad y Cadeirydd 2021-2022

Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad y Cadeirydd 2021-22. Yn gyntaf oll hoffwn ddiolch i Wyn Ellis Jones am ei arweiniad proffesiynol ac ymroddgar fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rwy'n edrych ymlaen i arwain yr Awdurdod yn y dyfodol agos, er mwyn gwarchod ein cymunedau arbennig a thirweddau unigryw er mwyn i genhedlaethau'r dyfodol ei fwynhau.

Roedd 2021-22 yn flwyddyn heriol arall i'r Awdurdod wrth i gyfyngiadau'r coronafeirws gael eu hymplacio a gweld niferoedd mawr o ymwelwyr eto yn ein Parc Cenedlaethol.

Hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled a'u hymroddiad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Annwen Hughes

Chairman's Report 2020-21

Introduction

Welcome to the Chair's report for 2021-22. First, I would like to thank Wyn Ellis Jones for his professional and dedicated leadership as Chairman over the past two years.

I look forward to leading the Authority for the near future, to protect our special communities and unique landscapes for future generations to enjoy.

2021-22 was yet another testing year for the Authority as we came out of the coronavirus restrictions and yet again saw a large number of visitors to our National Park.

I would like to thank all the members of staff for their hard work and dedication over the past year.

Annwen Hughes



Eryri 70

Ar Hydref y 18fed, dathlodd Eryri 70 mlynedd ers ei ddynodi'n Barc Cenedlaethol, ac er mwyn nodi'r achlysur arbennig paratowyd rhaglen o ddigwyddiadau amrywiol gan Awdurdod y Parc.

Cafodd sawl prosiect cyffrous a digwyddiadau arbennig eu cynnal i ddathlu'r garreg filltir arbennig yma. Comisiynwyd nifer o artistiaid lleol i greu darnau o gelfyddyd sy'n dathlu Eryri, sydd ar gael i'w gwerthfawrogi trwy fap digidol, ac estynnodd ein Gwasanaeth Cadwraeth wahoddiad i Gynghorau Cymuned ein helpu i blannu 5,000 o goed ar draws y Parc, un ar gyfer pob un trigolyn sy'n dathlu pen-blwydd yn 70, a phob un plentyn a enir yn 2021.

Eryri 70

On the 18th of October, Snowdonia celebrated 70 years since its designation as a National Park, and to mark this special occasion the Park Authority arranged a variety of events.

Many exciting projects and special events were held to celebrate this special milestone. Various local artists were commissioned to create works of art to celebrate Eryri. The Conservation Service also invited Community Councils to plant 5,000 native trees across the Park, one for each resident celebrating a 70th birthday, and every child born in 2021.



Er mwyn cofnodi'r saith degawd, porwyd trwy hen ffotograffau i greu oriel ddigidol o hen luniau . Yn ogystal â defnyddio hen luniau llychlyd o lyfrgell yr Awdurdod, croesawyd lluniau gan y cyhoedd er mwyn cofnodi eu profiadau hwy o fyw, gweithio neu ymweld â'r Parc Cenedlaethol.

Yn arwain at y diwrnod mawr cynhaliwyd taith arbennig o ogledd y Parc i'r de, gyda staff, gwirfoddolwyr, aelodau a phartneriaid yn cwblhau cymalau ar droed, ar ddwy olwyn a thrwy ddŵr! Gorffennodd y daith yn Aberdyfi, a roedd cyfle i bawb ymgynnull unwaith eto mewn dathliad arbennig.

To record seventy years of Park life, we rummaged through old photographs to create an on-line image gallery. As well as using dust-coated photos from the Authority's library, the public were invited to contribute to the gallery by submitting their old photos that record their experiences of living, working or visiting the National Park.

During the week leading up to the big day a special journey took place from the north of the Park to the south, with staff, volunteers, members and partners completing sections on foot, on wheels and through water! The journey finished in Aberdyfi, where there was a small celebratory event.

CYNLLUN

ERYRI

CYNLLUN PARTNERIAETH

PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Cynllun Eryri

Bu 2020-21 yn flwyddyn anodd ar gyfer symud ymlaen â gwaith ar lawr gwlad a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri oherwydd y cyfyngiadau a gychwynwyd gan bandemig Covid-19.

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth APCE / Cyngor Gwynedd wedi ei arwyddo i ddatblygu a gwreiddio egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy ar draws y rhanbarth gyda dyddiad dod i ben yn 2035. Bydd asesiad o gynnydd y gwaith hwn yn digwydd yn flynyddol yn erbyn y pwyntiau gweithredu a nodir yng Nghynllun Eryri.

Cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar adrannau blaenoriaeth Mynydd Llwybr Moel ar Gader Idris gyda thîm mynediad APCE ar gyfer cam cyntaf prosiect llwybrau mawr. Mae gwaith arall yn cynnwys: Mân waith llwybrau Gwarchodfa Natur Cenedlaethol Rhinogydd yn y rhan wlyb i'r dwyrain o Fwlch Drws Ardudwy; Gwarchodfa Natur Cenedlaethol Cwm Idwal: gwaith ar raddfa fach gan dîm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Gosod gatiâu mynediad newydd wrth fynedfa Gwarchodfa Natur Genedlaethol Llwybr Watkin.

Cynllun Eryri

2021 was a difficult year for progressing on-the-ground work outlined in the Action Plan of Cynllun Eryri due to the restrictions of the Covid-19 pandemic.

The SNPA / Gwynedd Memorandum to develop and embed Sustainable Tourism principles across the region and begin a programme of work together has been signed with an end date of 2035, assessment on this work will take place annually against the action points noted in Cynllun Eryri.

Natural Resources Wales agreed priority sections of Mynydd Moel path on Cader Idris with the Authority's access team for the first phase of a big path project. Other works include: Rhinogydd National Nature Reserve minor path works in wet section east of Bwlch Drws Ardudwy; Cwm Idwal National Nature Reserve: small scale works by the National Trust team; New access gates installed at the National Nature Reserve entrance on Llwybr Watkin.



Cynhyrchwyd taflen arhosiad ar gyfer Haf 2021 i annog ymwelwyr i fynd ar y bws i atyniadau a theithiau cerdded i ymwelwyr. Mae'r gwasanaeth he-fyd yn rhan o fenter 1Busticket. Mae deialog rheolaidd yn parhau gyda Trafnidiaeth Cymru i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gydweithio â gwasanaethau trafndiaeth prif linell i leihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd.

Mae grŵp Craffu Carbon wedi'i sefydlu gydag aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol i werthuso polisiâu strategol gan gynnwys y Cynllun Eryri. Ar y cyd ag Awdurdod Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru, mae system ar gyfer sefydlu llinellau sylfaen allyriadau Carbon yn cael ei rhoi ar waith a bwriedir llunio Strategaeth Garbon o'r gwaith sylfaenol hwn.

A staycation leaflet was produced for Summer 2021 to encourage visitors to take the bus to visitor attractions and walks. The service is also part of the 1Busticket initiative. Regular dialogue continued with Transport For Wales to maximise opportunities to work together with mainline transport services to reduce impacts of parking & transport on the environment.

A Carbon Scrutiny group has been established with National Park Authority members to evaluate strategic policies including Cynllun Eryri. In conjunction with other Welsh National Park Authorities a system for establishing Carbon emission baselines is being implemented and a Carbon Strategy is planned to emerge from this baseline work.



Gwirfoddoli a Llesiant

Mae gweithgareddau gwirfoddolwyr wedi'u hehangu'n sylweddol yn 2021, ac mae'r rhain yn amlwg yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant y rhai sy'n cymryd rhan.

Gan weithio gyda busnesau lleol, mae dau Tramber ar gael i'w defnyddio ar draws y Parc Cenedlaethol, sef sgwteri symudedd wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer pob tirwedd, a gellir eu defnyddio oddi ar y ffordd a hyd yn oed ar dir garw, mwdlyd a glaswellt. Mae un wedi ei leoli ym Meddgelert ar llall yn Nolgellau

Cyfrannodd 73 o wirfoddolwyr Caru Eryri 134 o ddyddiau gwirfoddoli tra cyfrannodd 32 o Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa 284 o ddyddiau gwirfoddoli tuag at waith yr Awdurdod.

Volunteering and Wellbeing

Volunteer activities have been significantly expanded in 2020-21, these clearly have a positive impact on the Wellbeing of those who take part .

Working with local businesses, two Trampers are available for use throughout the National Park which are especially designed, all-terrain mobility scooters and can be used off road and even on rough ground, mud and grass area. One is based in Beddgelert and the other in Dolgellau.

73 Caru Eryri volunteers worked 134 volunteer days whilst 32 Snowdon Volunteer Wardens worked 284 volunteer days.



Cyfathrebu'n effeithiol

Rydyn ni yma fel sefydliad i ofalu am Eryri. Heb ymgysylltu â phobl yn effeithiol ynghylch pam fod hyn yn bwysig i'w wneud, ni fyddwn yn llwyddo. Mae llwyddiant ein cenhadaeth wedi'i ymblethu yn ein gallu i gysylltu â'n cynulleidfaoedd targed. Y bwriad yw ymgysylltu yn y fath fodd fel eu bod yn cael eu symud i weithredu - i'n helpu i ofalu am y Parc Cenedlaethol.

Cyrhaeddodd ein negeseuon 9.19 miliwn o argraffiadau ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn 2021.

Effective Communication

We are here as an organisation to look after Snowdonia. Without effectively engaging people in why this is important to do, we will not succeed. The success of our mission lies in our ability to connect with our target audiences. To engage in such a way that they are moved to action - to help us look after the National Park.

Our social media messaging reached 9.19 impressions on our channels in 2021.



PARC CENEDLAETHOL ERYRI

© Cwmni Cymru

© Cwmni Cymru

NEWYDDION AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

Gweld holl newyddion →



12.04.2021

Yr Awdurdod yn derbyn delseb ar y defnydd o enw'r Wyddfa

Awdurdod y Parc



01.06.2021

Lansio ymgynghoriad ar strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth

Awdurdod y Parc



14.06.2021

Awdurdodau yn dod ynghyd i gau meysydd parcio Eryri unwaith eto

Awdurdod y Parc



13.05.2021

Gwaith all-dol ar Galf'r Sosban yn ennill Gwobr Genedlaethol

Awdurdod y Parc

Cyhoeddi a Datblygu

TIRWEDD BYW A THIRWEDD GWEITHIO

Mae Eryri yn ffrith o gymunedau ar draws y ddiwedd lle mae diwylliant, iaith a hanes yn cydblethu i greu hunaniaeth unigryw a bywiog.

Darganfydd Diwylliant, Iaith a Chymuned →

New Website

The Authority's new website was launched at the beginning of 2022. This is the culmination of months of hard work and dedication from staff from across the Authority,

The new website will be much more user-friendly to find out information about Snowdonia, and also to find services on the Planning and Authority microsites.

Yr Ysgwrn's new microsite will launch in Spring 2022 with plans to expand the online services of Plas Tan y Bwlch as well.

Gwefan Newydd

Lansiwyd gwefan newydd yr Awdurdod ar ddechrau 2022. Dyma benllanw misoedd o waith caled a pharatoi gan nifer o swyddogion ar draws yr Awdurdod.

Mi fydd y wefan newydd yn llawer iawn rhwyddach i ddefnyddwyr ganfod gwybodaeth am Eryri yn ogystal a chanfod gwasanaethau ar wefannau meicro yr Awdurdod a Chynllunio.

Mi fydd gwefan Yr Ysgwrn yn cael ei lansio yng Ngwanwyn 2022 a chynlluniau ar y gorwel i ehangu darpariaeth ar-lein Plas Tan y Bwlch.



Cofrestru Digwyddiadau

Yn 2021 treialodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri rhaglen beilot ar gyfer cofrestru digwyddiadau.

Mae'r wybodaeth yma yn mynd i'n galluogi ni annog trefnwyr digwyddiadau i gysidro cynnal digwyddiadau ar draws y tymor, yn enwedig yn ardal Yr Wyddfa. Mi fydd hyn yn gyfle hefyd i ni rannu negeseuon o flaen llaw gyda trefnwyr digwyddiadau yn enwedig ar fynyddia diogel, trafndiaeth gynladwy a rheoli sbwriel.

Organised Events

In 2021 the Snowdonia National Park Authority developed a pilot event registration scheme.

This information will enable us to encourage event organisers to consider spreading their activities, especially on Yr Wyddfa (Snowdon) across the season. This will also be an opportunity for us to share the right messaging in advance to those organisers particularly on mountain safety, sustainable transport and waste and litter control.



System Rhagarchebu Pen y Pass

Yn Haf 2020 diwethaf, gydag effaith pandemig Cofid-19 yn rhoi cynnydd anferthol mewn gwyliau gartref, gwelwyd niferoedd uwch nag erioed o ymwelwyr ar draws atyniadau twristiaeth Prydain. Achosodd y don o ymwelwyr broblemau parcio a gorboblogaeth, yn enwedig ym mhrif faes parcio Pen y Pass.

Arweiniodd hyn i 'r Awdurdod i archwilio beth oedd ar gael i mewn systemau archebu lle parcio a fyddai'n hawdd i'w roi mewn lle heb yr angen i gael isadeiledd newydd ar y safle. Arweiniodd hyn at system rhagarchebu arlein Just Park.

O'r Ebrill hyd at fis Tachwedd 2021 roedd rhaid i bob gyrrwr oedd yn dymuno parcio ym maes parcio Pen y Pass ddefnyddio ap neu wefan JustPark i ragarchebu lle parcio o leiaf 24 awr o flaen llaw. Os yw'r maes parcio'n llawn yna byddant yn cael eu hannog i ddefnyddio'r cyfleusterau Parcio a Theithio yn Nant Peris a Llanberis er mwyn cyrraedd Pen y Pass.

Mae hyn yn rhan o gynllun parcio a thrafnidiaeth hirdymor uchelgeisiol a chynaliadwy yng ngogledd Eryri. Mae'r gwasanaeth yn tanlinellu sut mae traffig, llygredd a sŵn yn cael eu lleihau yn yr ardal fewnol yn ystod y tymor prysur, gan wella profiad yr ymwelydd yn aruthrol.

Mae'r datblygiad yma yn cyd-fynd – ac yn atgyfnerthu – un o negeseuon craidd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y tymor ymwelwyr sef i gynllunio o flaen llaw, ac yn pwysleisio'r ffurfiau eraill o deithio sydd ar gael wrth ymweld â'r Wyddfa.

Pen y Pass Pre-Booking System

The summer of 2020 saw record visitor numbers across the UK's tourist attractions as the Covid-19 pandemic resulted in a massive increase in staycations for holidaymakers. The resultant rush of visitors caused a number of parking and overcrowding problems, particularly at the main Pen y Pass car park.

The Authority looked for car park booking solutions that could very quickly and easily be put in place with no need for new on site infrastructure. This led us to JustPark's online pre-book solution.

From April to November 2021 any drivers who wished to park at Pen y Pass car park needed to use the JustPark app or website to pre book their visit at least 24 hours in advance. If the car park was full then they were encouraged to use the Park and Ride facilities at Nant Peris and Llanberis to access Pen y Pass.

This is part of long term plans for an ambitious and sustainable new approach to parking and transport in the north of the National Park.

The development is in line with – and reinforces – one of Snowdonia National Park Authority's core messages for the visitor season, to plan in advance and highlights the other sustainable modes of transport on offer when visiting Yr Wyddfa.



Adfer Mawndiroedd

Prosiect adfer mawndir ym Mwlch y Groes ar ymyl Parc Cenedlaethol Eryri yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru i gael ei gwblhau gydag arian a godwyd trwy werthu carbon, yn dilyn dilysiad gan y Côt Mawndiroedd.

Diolch i nawdd gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru, sef prosiect dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a chydweithrediad teulu'r Roberts sydd wedi ffermio ym Mhennant, Llanymawddwy ers sawl cenhedlaeth, mae'r prosiect adfer mawndir 66 hectar wedi ei gwblhau'n llwyddiannus.

Dros fisoedd y gaeaf ymgwymerwyd â'r gwaith adfer gan gontractwyr ag arbenigedd mewn mawndiroedd er mwyn ail-broffilio a chau torlannau mawn a rhigolau. Trwy adfer y safle amcangyfrifir y bydd 2,335 tonnell o allyriadau carbon yn cael eu hatal rhag cael eu rhyddhau dros y 35 mlynedd nesaf, sy'n fras yn gyfwerth â'r cyfaint o garbon deuocsid a gynhyrchir wrth losgi llond 632 tanc domestig o olew.

Peatland Restoration

A peatland restoration project at Bwlch y Groes on the edge of the Snowdonia National Park was the first of its kind in Wales to be completed with the benefit of carbon funding, following validation under the Peatland Code.

Thanks to funding by the Welsh Peatlands Sustainable Management Scheme, a project led by the Snowdonia National Park Authority, and in conjunction with the Roberts family who have farmed at Pennant Farm, Llanymawddwy for several generations, the 66 hectare peatland restoration project has been successfully completed.

Over the winter months restoration works to re-profile and block the extensive complexes of hags and gullies across the site were carried out by experienced peatland contractors. It is estimated that over the next 35 years, the restoration of the site will halt the loss of 2,335 tonnes of carbon emissions equivalent, which roughly equates to the amount of carbon dioxide generated from burning 632 household tanks worth of oil.



Yn ogystal ag atal rhyddhad carbon o'r mawn a diogelu ei storfa sylweddol o garbon, daw buddion eraill yn sgil y gwaith fel gwell ansawdd dŵr, llif dŵr mwy sefydlog, cynnydd mewn bioamrywiaeth ac amodau cynefin gwell ar gyfer creaduriaid dŵr croyw di-asgwrn-cefn ac adar. Mae'r ardal amgylchynol yn cynnal y darn helaethaf trwy Gymru o orgors sydd fwy neu lai'n gwbl naturiol, a hefyd yr ardal ucheldir pwysicaf ar gyfer adar sy'n magu, yn cynnwys amrywiaeth eang o rywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol.

Cydariannwyd y prosiect trwy Gynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru ynghyd ag incwm carbon a gynhyrchwyd o werthiant credyd carbon trwy Forest Carbon. Dilyswyd y credydau carbon hyn dan y Côt Mawndiroedd gan eu galluogi i gael eu marchnata gan y sector preifat.

As well as halting the release of carbon from the peat and protecting its significant store of carbon, the restoration works will also have wide-spread co-benefits such as improved water quality, steadier water flow, increased biodiversity, and improved habitat conditions for freshwater invertebrates and birds. The surrounding area supports the most extensive tract of near-natural blanket bog in Wales and is the most important upland area for breeding birds, including a wide range of internationally important species.

The project was co-funded through the Welsh Peatlands Sustainable Management Scheme (SMS) project alongside carbon income generated from the sale of carbon credits through Forest Carbon. These carbon credits were validated under the Peatland Code, and in doing so enabled them to be marketed to the private sector.



Prosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau

Mae gwaith adnewyddu tô 17eg ganrif ar adeilad y Sosban yn Nolgellau wedi cipio gwobr genedlaethol am ei rhinweddau traddodiadol prin gan ddefnyddio Llechi Cymru.

Cyhoeddwyd mai'r cwmni o Sir Fôn, Greenough & Sons oedd enillwyr y categori 'Defnydd gorau o lechi ar gyfer tô treftadaeth' yng ngwobrau Toeau ar Oledf 2020 allan o saith cwmni o gontractwyr oedd ar y rhestr fer.

Roedd y gwaith a barhaodd am 10 wythnos ar adeilad gradd II rhestredig Caffi'r Sosban yng nghanol tref Dolgellau yn cynnwys gwaith oedd unwaith yn draddodiadol i'r ardal ond sydd bellach yn brin iawn i'w weld.

Defnyddiwyd llechi glaslwyd Cwt y Bugail Llechi Cymru ar hap er mwyn dyblygu patrwm y tô gwreiddiol, oedd wedi ei beintio a bitwmen wedi ceisiadau aflwyddianus blaenorol i'w atgyweirio.

Roedd y gwaith adfer yn rhan o Brosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau ariannir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Cadw, oedd wedi adnabod yr adeilad fel un o dri adeilad yn y dref oedd wedi ei blaenoriaethu i gael eu hatgyweirio.

Dolgellau Townscape Heritage Project

The renovation of a 17th Century listed building in Dolgellau, Y Sosban, which incorporated some "rare" roofing methods using Welsh Slate, has won a national award.

Greenough & Sons roofing contractors, who are based on the Isle of Anglesey, were named the winners out of seven specialist sub-contractors shortlisted for the "Best use of a roof tile for a heritage roof," category of the 2020 Pitched Roofing Awards.

Their 10-week work on the Grade II listed Y Sosban cafe in Dolgellau town centre involved the use of mitred hips and "single-cut" swept valleys which were once traditional to the immediate area but are now extremely rare to see.

The project also featured the use of Welsh Slate's Cwt Y Bugail blue grey slates in random, diminishing courses to replicate the coursing of the original roof, which had been coated with bitumen and subject to various unsuccessful localised repair attempts.

The Dolgellau Townscape Heritage project, funded by the Snowdonia National Park Authority, the National Lottery Heritage Fund and Cadw, which had identified the building as one of three "High priority buildings" needing attention in the town.



Yr Ysgwrn

Yr Ysgwrn, Hedd Wyn's home in Trawsfynydd, extended their offer to groups by providing more experiences and guided tours outside. The heritage site now offers a tour of the ffridd – the land and views that would have inspired many of the poet's poems. Plaques with Hedd Wyn's poems have already been placed at relevant points on the path through the ffridd.

They will also be offering a guided tour of the village of Trawsfynydd, to show important places such as where Hedd Wyn was born, the family chapel and the history of the memorial in the centre of the village.

Yr Ysgwrn

Ymestynodd Yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn yn Nhrwysfynydd eu cynnig i grwpiau eleni trwy roi mwy o brofiadau a theithiau tywys yn yr awyr agored. Mae'r Ysgwrn yn cynnig taith o amgylch y ffridd, sef tir fferm Yr Ysgwrn – y tir a'r golygfeydd fyddai wedi ysbrydoli nifer o gerddi'r bardd. Mae placiau gyda cherddi Hedd Wyn eisoes wedi eu gosod mewn manau perthnasol ar y llwybr trwy'r ffridd.

Hefyd maent yn cynnig teithiau tywys llawn o amgylch y ffermdy fel yn y gorffennol yn ogystal â theithiau newydd i grwpiau o amgylch y ffridd a phentref Trawsfynydd.



Catrin Williams

Cân a fideo cerddorol Yr Ochr Draw oedd penllanw prosiect creadigol digidol Yr Ysgwrn a chymuned Trawsfynydd. Yn ystod y cyfnod clo diwethaf bu criw o bobl ifanc a phlant Ysgol Bro Hedd Wyn yn cydweithio gydag amrywiol artistiaid dros Zoom a Meet i greu cân a fideo cerddorol.

Yr artistiaid ynghlwm a'r prosiect oedd y cerddorion Gai Toms a Manon Llwyd, yr artist gwledol Catrin Williams, golygydd Rhys Grail a'r cydlynnydd creadigol Siwan Llynor. Recordiwyd y lleisiau a'r deunydd i'r fideo i gyd mwy neu lai ar ffonau symudol.

Nod y prosiect hwn oedd parhau â'r cyswllt creadigol mewn cyfnod heriol ac i ddathlu bro Trawsfynydd a'i thirwedd. Mae'n gofnod o gyfnod mewn hanes ardal ac yn gân o obaith wrth edrych i'r dyfodol.

Yr Ochr Draw was the culmination of an online creative project by the Ysgwrn and the community of Trawsfynydd. During the first lock down, a group of young people, adults and children of the local primary school collaborated with various artists over Zoom and Meet to create a song and music video.

The artists involved in the project were musicians Gai Toms and Manon Llwyd, visual artist Catrin Williams, editor Rhys Grail and creative coordinator Siwan Llynor. The voices and footage for the video were all mainly recorded on mobile phones.

The aim of this project was to continue the creative connections and collaboration between the Ysgwrn and the local community in challenging times, and to celebrate the local area and its magnificent landscape. It is also a record of a unique time in history and a song of hope as we look forward to the future.



Prosiect Cysylltu Comin a Chymunedau Uwch Gwyrfai

Adfer terfynau traddodiadol, cynnal a chadw llwybrau, gwaith celf murlun – dyma ond ychydig o'r buddion ddaeth i gymuned Comin Uwch Gwyrfai dros y ddwy flynedd diwethaf yn sgil prosiect Cysylltu Comin a Chymunedau Uwch Gwyrfai.

Yn pontio rhan fechan o ffin gogledd-orllewin y Parc Cenedlaethol mae Comin Uwch Gwyrfai – sef ardal eang o rostir mynydd, a chynefin arbennig i amrywiaeth o lystyfiant ac adar. Er mwyn diogelu'r cynefin arbennig hwn er budd ei fywyd gwyllt yn ogystal â cheisio ehangu'r amrywiaeth o rywogaethau, tra hefyd yn cynnal y borfa ar gyfer y gymdeithas pori sefydlwyd prosiect ar y cyd rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chymdeithas Porwyr Uwch Gwyrfai. Ariannwyd y prosiect trwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru.

Uwch Gwyrfai Common and Community Links project

Restoring traditional boundaries, path maintenance, a mural artwork – these are only some of the benefits the community of Uwch Gwyrfai Common enjoyed over the past two years, thanks to the Uwch Gwyrfai Common and Community Links project.

Saddling a small section of the National Park's north-west boundary lies the Uwch Gwyrfai Common – an area of mountain heath, and an important habitat for a diversity of vegetation and birds. To safeguard this important habitat for the wildlife it supports and to encourage an enhancement in the diversity of species, while also maintaining the pasture for the grazing society, a joint project was established between the National Park Authority and the Uwch Gwyrfai Grazing Society. The project was funded through the Welsh Government's European Agricultural Fund for Rural Developments.



Yn ogystal â'r buddion amgylcheddol o weithredu rhaglen rheoli rhostir, mae tirfeiddianwyr lleol hefyd wedi elwa trwy gynllun grantiau arbennig i adfer terfynau carreg traddodiadol. Galluogodd y prosiect well rheolaeth stoc trwy ffensio terfynnau'r comin a phlannu gwrychoedd mewn manau i hybu bioamrywiaeth, yn ogystal â hwyluso gosod grid gwartheg ym mhentref Fron er mwyn rhwystro defaid rhag dianc oddi ar y comin.

Roedd elfen ymgysylltu yn rhan bwysig o'r prosiect, a bu llawer iawn o gydweithio gyda'r ysgol leol, Ysgol Rhosgadfan, ar furlun mosaig newydd sydd wedi ei osod ar wal yr ysgol. Bu arlunydd lleol, Ann Smith yn gweithio ar y dyluniad gyda'r disgyblion gyda'r weledigaeth o ddathlu rhai o nodweddion arbennig yr ardal.

Un o nodau'r prosiect hefyd oedd annog trigolion i fynd allan i ddarganfod a dysgu mwy am eu milltir sgwâr, ac i'r perwyl hwn y cwblhawyd gwaith cynnal a chadw ar Lwybr Ffynnon Dŵr Oer a Llywybr Tram Rhosgadfan, yn ogystal â chynnal teithiau tywys gyda arbenigwyr yn y maes ecoleg a hanes.

In addition to the environmental advantages of implementing a heath management programme, local landowners also benefited from a special grant scheme to repair traditional stone boundaries. The project also contributed to better stock control by fencing the common's boundaries and planting hedges to promote biodiversity, as well as facilitating the installation of a cattle grid in the small village of Fron to prevent sheep from escaping the common.

Community engagement formed an important part of the project, and the local school, Ysgol Rhosgadfan was involved in the creation of a new mosaic mural on the school wall. The pupils worked with local artist, Ann Smith on a design that celebrated some of the area's special qualities.

One of the project's aims was to encourage people to go out to explore and learn more about their local area, and to this end maintenance work was undertaken on the Ffynnon Dŵr Oer path and the Rhosgadfan tram path, as well as hosting guided walks in the company of ecologists and historians.



Llysgennad Eryri

Dathlodd lansio cynllun hynod lwyddiannus Llysgennad Eryri flwyddyn o fodolaeth yn 2021. Cynllun sydd wedi cyfoethogi deallusrwydd y diwydiant twristiaeth leol am yr hyn sy'n gwneud Eryri'n arbennig.

Dyma gynllun hyfforddiant ar-lein o safon uchel sy'n cynnig achrediad unigryw i unigolion neu i fusnesau – gyda'r bwriad i addysgu, ac i rannu negeseuon sy'n arwain at warchod yr hyn sy'n gwneud Eryri'n arbennig. Mae'r modiwlau'n frith o gyfraniadau gan arbenigwyr ar draws y rhanbarth o waith celfyddydol gwreiddiol i destun ffeithiol.

Ers lansio, mae'r cynllun wedi mynd o nerth i nerth gyda dros 600 wedi cymhwyso fel Llysgenhadon Eryri yn y flwyddyn gyntaf.

Gyda'r bwriad i ehangu ac esblygu'r ddarpariaeth, mae cynlluniau ar droed ar gyfer mwy o fodiwlau newydd ar gyfer 2022: Y Carneddau, a modiwl arbennig yn cynghori a chefnogi busnesau lletygarwch i leihau eu defnydd o blastig untro.

Eryri Ambassador

The hugely popular Eryri Ambassador scheme celebrated its first birthday in 2021. A scheme which has enriched the local tourism industry's knowledge and understanding of what makes Eryri exceptional.

This is a training scheme of a high standard which offers an unique accreditation to individuals or businesses – and intends to educate and share messaging to protect the things that make Eryri exceptional. The modules are made up of contributions from experts from across the region, from original works of art and literature to factual text.

Since the launch, the scheme has gone from strength to strength with over 600 earning the title of Eryri Ambassador in the first year.

With intentions of expanding and evolving the scheme, we are planning more new modules for 2022 on the Carneddau Partnership as well as a special module assisting accommodation businesses to reduce single-use plastic.



Awyr Dywyll

Cynhaliwyd Wythnos Awyr Dywyll Cymru am y tro cyntaf yn 2021. Cydweithiodd Prosiect Nos ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda pob un o'r tirweddau dynodedig yng Nghymru er mwyn cyflwyno nifer o ddigwyddiadau byw ac ar-lein ar draws y wlad.

Dros 8 diwrnod yr wyl teithio' ni o gwmpas tirweddau dynodedig Cymru er mwyn deall mwy am yr hyn sy'n mynd ymlaen i warchod ein Awyr Dywyll a'r ffyrdd y gallwch chi helpu.

Mae'r ymgyrch i warchod ein Awyr Dywyll yn hanfodol bwysig yn y frwydr yn erbyn llygredd golau a newid hinsawdd yn ogystal â gwarchod ein bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol trwy ein cysylltiadau â'n hanes amaethyddol a morwrol.

Dark Skies

The first ever Wales Dark Skies Festival was held in February 2021. Prosiect Nos and the Snowdonia National Park Authority worked together with the whole protected landscape family in Wales to bring to you a week of online and in person events around the country.

Over the 8-day festival we journeyed around Wales's protected landscapes to learn more about the work that is going on there to protect our Dark Skies and what you could do to help.

The campaign to preserve our Dark Skies are vitally important in the effort against light pollution and climate change as well as protecting our biodiversity and cultural heritage with links to our agricultural and maritime heritage.



LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd

Mae'r Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd wedi bod yn gweithio'n agos gyda K Roberts Forestry i wneud rhywfaint o waith hanfodol i adfer coetir hynafol ger Penmaen-pwl, Dolgellau. Mae'r safle, a ddosbarthwyd yn rhannol fel Planhigfa ar Safle Coetir Hynafol (a adwaenir yn gryno yn aml fel PAWS), wedi bod o dan orchudd rhywogaethau conwydd ers amser maith, gyda dim ond rhannau o'r coetir yn cadw nodweddion coetir brodorol.

Fodd bynnag, mae'r prosiect wedi ceisio tynnu'r coed conwydd sy'n weddill o'r safle, a fydd yn caniatáu i rywogaethau brodorol ail dyfu o hadau'r coed brodorol aeddfed sy'n aros yno. Bydd hon yn broses raddol iawn a fydd yn cymryd sawl degawd, ond mae'r prosiect yn falch o allu cefnogi'r camau cychwynnol holl bwysig a fydd yn caniatáu i'r trawsnewid tymor hir ddigwydd.

LIFE Celtic Rainforests

The Celtic Rainforest Project worked closely with K Roberts Forestry to undertake some essential work in the restoration of an ancient woodland near Penmaenpool, Dolgellau. The site, partially classified as a Plantation on Ancient Woodland Site (PAWS), has long been under the cover of coniferous species, with only parts of the woodland retaining native woodland features.

However, the project has sought to remove the remaining conifers from the site, which will allow for native species to regenerate from the seeds of the mature native trees which remain there. This will be a very gradual process which will take several decades, but the project is glad to be able to support the all-important initial steps which will allow the long term transition to happen.



Yr Wyddfa ddi-blastig

Mae CGG wedi cynnal arolwg ar lygredd micro-plastigion yn llwyddiannus fel rhan o astudiaeth gwmpasu i weld a fyddai'n bosibl creu parth Di-Blastig ar Yr Wyddfa.

Nod Partneriaeth Yr Wyddfa, o dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o lygredd plastig ar fynydd mwyaf poblogaidd y DU ac ystyried ymarferoldeb cyflwyno Ardaloedd Di-Blastig yn y Parc Cenedlaethol.

Plastic-free Yr Wyddfa

CGG has successfully conducted a microplastics pollution survey as part of a scoping study into whether it would be possible to create a Plastic Free zone on Yr Wyddfa (Snowdon).

Partneriaeth Yr Wyddfa (the Snowdon Partnership) led by the Snowdonia National Park Authority aims to increase public awareness of plastic pollution on the UK's most visited mountain and consider the practicalities of introducing Plastic Free Areas in the National Park.



© Hawlfrain y Goron, Cressa Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Nodwyd symiau amrywiol o lygredd microplastig yn yr holl samplau pridd a gasglwyd ar hyd Llwybr prysur Llanberis i gopa'r Wyddfa ym mis Ebrill 2021 a'u dadansoddi gan CGG yn ei Labordai Geowyddoniaeth yng Ngogledd Cymru ar gyfer meintioli ac adnabod micro-plastig. Defnyddiwyd sampl paratoi arloesol newydd a llif gwaith dadansoddol newydd, ar gyfer sgrinio sampl mäs cyflym i nodi crynodiadau uchel o ficro-plastig sy'n sylweddol gyflymach na'r dulliau adnabod â llaw ac optegol presennol. Gellir defnyddio'r llif gwaith hwn i gyfrifo cyfaint, maint a siâp gronynnau plastig mewn sampl.

Defnyddiwyd y canlyniadau i bennu Mynegai Llygredd Microplastig, sydd wedi ei ddylunio i helpu sefydliadau, awdurdodau lleol neu asiantaethau'r llywodraeth i nodi ardaloedd o ollyngiadau a gwastraff plastig lle gallai microplastigion fod yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd neu'r amgylchedd naturiol. Ar Yr Wyddfa, gwelwyd y symiau mwyaf o ficro-plastig lle mae pobl yn ymgynnull mewn niferoedd mawr. Roedd gronynnau micro-plastig yn cyfrif am bron i 5% o gyfanswm y sampl a gasglwyd ar y copa. Gronynnau bach, abradrad iawn yn bennaf oedd y rhain a ffrufwyd o ddarnio deunydd plastig mwy a ffibrau wedi'u dod oddi ar ddillad.

Variable amounts of microplastic pollution were identified in all the soil samples collected along the busy Llanberis Path to the summit of Snowdon in April 2021 and analyzed by CGG at its Geoscience Laboratories in North Wales for microplastic quantification and identification. A new, innovative sample preparation and analysis workflow was used for rapid, mass sample screening to identify high concentrations of microplastic significantly faster than with existing manual and optical identification methods. This workflow can be used to calculate the volume, size and shape of plastic particles within a sample.

The results were used to determine a Microplastic Pollution Index, that is designed to help organizations, local authorities or government agencies identify areas of plastic leakage and wastage where microplastics may be entering the food chain or natural environment. On Yr Wyddfa (Snowdon), the largest amounts of microplastic were observed where people congregate in large numbers. Microplastic particles constituted nearly 5% of the total sample collected at the summit. These were predominantly small, highly-abraded particles formed from the fragmentation of larger plastic material and fibers shed from clothing.



Coed Cefn Gwlad

Yn yr Hydref daeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Choed Cadw ynghyd i weithredu prosiect newydd arbennig i blannu coed a gwrychoedd o fewn ardal ddynodedig yn y Parc Cenedlaethol.

Yn ogystal â helpu'r amgylchedd yn wyneb newid hinsawdd a'u rôl wrth liniaru llifogydd, mae coed a gwrychoedd hefyd yn ffurfio rhan hanfodol o ecosystem cefn gwlad. Mae gwrychoedd yn chwarae rhan bwysig wrth gysylltu cynefinoedd mewn tirwedd dameidiog.

Trees Outside Woods

In the autumn the Snowdonia National Park Authority and the Woodland Trust collaborated to implement a special new project with the aim of planting more trees and hedgerows within a designated area of the National Park.

As well as helping to combat climate change and mitigating flooding, trees and hedgerows form an essential part of the countryside ecosystem. Hedgerows play an important role in connecting habitats in a fragmented landscape.



Mae clystyrau coed a gwrychoedd sy'n ffinio caeau amaethyddol hefyd yn nodweddiadol o dirwedd Eryri, ac yn un o'r rhinweddau sy'n gwneud yr ardal mor arbennig. Ond gyda lledaeniad cyflym clefyd coed ynn mae nifer fawr o'n coed aeddfed dan fygythiad, ac felly un o nodau'r prosiect yma yw ceisio gwneud i fyny am y coed fydd yn cael eu colli i'r clefyd yma.

Diolch i nawdd gan y People's Postcode Lottery – ariannodd Coed Cadw dros £25,000 o waith ffensio er mwyn gwarchod y coedlannau a'r gwrychoedd newydd tra maent yn sefydlu. Meithrinfa goed Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas Tan y Blwch ddarparodd y coed a plannwyd 8,000 o goed brodorol a 1,800 metr o wrych. Mae ardal y prosiect yn cwmpasu 27 o Gynghorau Cymuned, o Feddgelert yn y gogledd yr holl ffordd i lawr i Aberdyfi a Phennal yn y de, ac yn ymestyn i'r dwyrain hyd at Rydymain a Mawddwy.

Small tree clusters and hedgerows that form boundaries around agricultural fields are also characteristic of Snowdonia's landscape, and is one of the qualities that makes the area so special. But with the rapid spread of ash dieback disease many of our mature trees are endangered, and so one of the aims of this project is to supplement those trees that will be lost to this disease.

Thanks to funding by the People's Postcode Lottery – the Woodland Trust funded over £25,000 worth of fencing work to protect the new trees and hedgerows while they become established. The trees were supplied from the Snowdonia National Park Authority's tree nursery at Plas Tan y Blwch, and planted 8,000 native trees and 1,800 metres of hedgerow. The project area encompasses 27 Community Councils and runs from Beddgelert to the north, all the way south to Pennal and Aberdyfi, and stretches to the east as far as Rhydymain and Mawddwy.



Welsh Slate landscape

The Slate Landscape of Northwest Wales has become an UNESCO World Heritage Site.

The Slate Landscape of Northwest Wales, which runs through Gwynedd, became the world leader for the production and export of slate in the 1800s. Slate has been quarried in the area for over 1,800 years and had been used to build parts of the Roman fort in Segontium in Caernarfon and Edward I's castle in Conwy.

However it wasn't until the industrial revolution that demand surged as cities across the world expanded with slate from the mines at Gwynedd being widely used to roof workers' homes, public buildings, places of worship and factories.

The Wales Slate Partnership Steering Group has been working tirelessly to reach this status. It will be an opportunity to start on a new journey to protect our outstanding slate landscape and ensure a lasting legacy for our economy and communities in the future.

The slate industry of this area was a hugely important part of the global economy in the past, and today the industry and those that gain inspiration from our landscape continue to make an important contribution to Gwynedd's economy.

Tirwedd Llechi Cymru

Mae Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru wedi dod yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

Roedd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, sy'n ymestyn drwy sir Gwynedd, ar flaen y gad o ran cynhyrchu ac allforio llechi yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae llechi wedi cael eu cloddio yn yr ardal am dros 1,800 o flynyddoedd ac wedi cael eu defnyddio i adeiladu rhannau o gaer Rufeinig Segontium yng Nghaernarfon a chastell Edward I yng Nghonwy.

Fodd bynnag, dim ond yn ystod y Chwyldro Diwydiannol y gwelwyd cynnydd yn y galw wrth i ddinasoedd ledled y byd ddatblygu, gyda llechi o chwareli Gwynedd yn cael eu defnyddio'n eang ar doeau cartrefi gweithwyr, adeiladau cyhoeddus, mannau o addoliad a ffatrioedd. Drwy dathlu ein hanes, rydym am adfywio ein cymunedau a chreu cyfleoedd cyffrous er budd cymunedau a busnesau Gwynedd a Gogledd Orllewin Cymru yn y dyfodol.

Mae Grŵp Llywio Partneriaeth Llechi Cymru wedi bod yn gweithio'n ddiwyd er mwyn cyrraedd y statws yma, Mi fydd yn gyfle i dathlu ein hanes, adfywio ein cymunedau a chreu cyfleoedd cyffrous er budd cymunedau a busnesau Gogledd Orllewin Cymru yn y dyfodol.



Cynllunio yn yr Iaith Gymraeg

Gan fod yr iaith Gymraeg yn hanfodol i ddiwylliant Eryri, mae'r polisi hwn yn sicrhau bod anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg yn cael eu hystyried wrth benderfynu pob cais cynllunio o fewn y Parc.

Yn ogystal, cyhoeddwyd dogfen ganllaw cynllunio atodol ddiwy-giedig, 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' ar wefan yr Awdurdod yn ystod Gorffennaf 2021.

Planning in the Welsh Language

The Welsh Language and the social and cultural fabric of communities – as the language is fundamental to the culture of Snowdonia, this new policy ensures that in determining all planning applications within the Park, the needs and interests of the Welsh language is taken into account.

In addition a revised supplementary planning guidance document, 'Planning and the Welsh Language' was published on the Authority's website during July 2021.



Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Er gwaethaf yr anawsterau bu'n flwyddyn brysur a chynhyrchiol dros ben ar y bartneriaeth.

Dros y flwyddyn cafwyd 176 gwirfoddolwr unigol yn cymryd rhan mewn dros 210 o ddiwrnodau gwirfoddoli. 26 o ddiwyddiadau mewn person. 26 sgwrs ar-lein a 6 o ddiwrnodau ymgysylltu gydag ysgolion.

Carneddau Landscape Partnership

Despite the difficulties, it was an extremely busy and productive year for the partnership.

Over the year we had over 176 unique volunteers taking part in over 210 volunteer days. 26 in-person events, 26 online discussions and 6 engagements days with local schools.



© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Y dyfodol

Mae'r Awdurdod a'i staff yn parhau i ddatrys, ffynnu a blodeuo yn eu tasgau, prosiectau a strategaethau trwy amseroedd anodd ac ansicr. Rydym yn edrych ymlaen i weld beth fydd yn wynebu'r Parc Cenedlaethol dros y flwyddyn nesaf.

The future

The Authority and staff continue to resolve, progress and flourish in their tasks, projects and strategies through difficult and uncertain times. We look forward to seeing what the next year will bring to our National Park.